



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2007 Rhif 399 (Cy.45)

2007 No. 399 (W.45)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Trefniadau Gweithrediaeth)
(Swyddogaethau a Chyfrifoldebau)
(Cymru) 2007

The Local Authorities (Executive
Arrangements) (Functions and
Responsibilities) (Wales)
Regulations 2007

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") yn darparu i swyddogaethau awdurdod lleol gael eu cyflawni gan weithrediaeth i'r awdurdod (y mae rhaid iddi fod ar un o'r ffurfiau a bennir yn adran 11(2) i (5) o'r Ddeddf) onid yw'r swyddogaethau hynny wedi'u pennu'n swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod. Mae'r rheoliadau hyn yn pennu swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod neu sydd i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth i raddau cyfyngedig yn unig neu o dan amgylchiadau penodedig yn unig. Mae'r rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001, Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2002, Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2003 a Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2001, 2002, 2003 a 2004"), yn cydgrynhoi darpariaethau'r rheoliadau hynny ac yn gwneud darpariaeth bellach.

Mae rheoliadau 3, 4, 5 a 6, drwy gyfeirio at yr Atodlenni i'r Rheoliadau, yn nodi'r cyfyngiadau ar ba swyddogaethau y caiff gweithrediaeth eu harfer. Yn Atodlen 1 rhestrir y swyddogaethau hynny y mae'n rhaid i weithrediaeth beidio â'u harfer ac yn Atodlen 2

Part II of the Local Government Act 2000 ("the 2000 Act") provides for the discharge of a local authority's functions by an executive of the authority (which must take one of the forms specified in section 11(2) to (5) of that Act) unless those functions are specified as functions that are not to be the responsibility of the authority's executive. These regulations specify functions that are not to be the responsibility of an authority's executive or are to be the responsibility of an executive only to a limited extent or only in specified circumstances. These regulations revoke the Local Authorities Executive Arrangements (Functions and Responsibilities) (Wales) Regulations 2001, the Local Authorities Executive Arrangements (Functions and Responsibilities) (Amendment) (Wales) Regulations 2002, the Local Authorities Executive Arrangements (Functions and Responsibilities) (Amendment) (Wales) Regulations 2003 and the Local Authorities Executive Arrangements (Functions and Responsibilities) (Amendment) (Wales) Regulations 2004 ("the 2001, 2002, 2003 and 2004 Regulations"), consolidate the provisions of those regulations and make further provision.

Regulations 3, 4, 5 and 6, by reference to the Schedules to the Regulations, set out the limitations on what functions may be exercised by an executive. Schedule 1 lists those functions which must not be exercised by an executive and Schedule 2 lists those

rhestrir y swyddogaethau hynny y caniateir iddynt fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod os bydd yr awdurdod yn penderfynu felly. Mae Rheoliad 5, drwy gyfeirio at Atodlen 3, yn nodi'r camau na chaniateir iddynt fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod yn unig.

Yn ôl rheoliad 6, nid yw'r swyddogaethau hynny a restrir yn Atodlen 4, a fyddai'n gyfrifoldeb i weithrediaeth oni bai am reoliad 6, i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth o dan yr amgylchiadau a nodir yng ngholofn (2) o'r Atodlen honno.

Mae Rheoliad 7 yn dirymu Rheoliadau 2001, 2002, 2003 a 2004.

Paratowyd arfarniad rheoliadol mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn, ac mae ar gael o Is-adran Polisi Llywodraeth Leol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ (ffôn 02920825111).

functions which may be the responsibility of an authority's executive, if the authority so decides. Regulation 5, by reference to Schedule 3, sets out what actions may not be the sole responsibility of an authority's executive.

By regulation 6 those functions listed in Schedule 4, which but for regulation 6 would be the responsibility of an executive, are not to be an executive's responsibility in the circumstances set out in column (2) of that Schedule.

Regulation 7 revokes the 2001, 2002, 2003 and 2004 Regulations.

A regulatory appraisal has been carried out in connection with these Regulations and is available from the Local Government Policy Division, National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ (telephone 02920825111).

2007 Rhif 399 (Cy.45)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Trefniadau Gweithrediaeth)
(Swyddogaethau a Chyfrifoldebau)
(Cymru) 2007**

Wedi'u gwneud 14 Chwefror 2007
Yn dod i rym 16 Chwefror 2007

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 13 a 105 a 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(1).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 a deuant i rym ar 16 Chwefror 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972(2);

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000;

mae "deddfiad" ("*enactment*") yn cynnwys deddfiad sydd wedi'i gynnwys mewn Deddf leol neu ddeddfiad y mae is-ddeddfwriaeth wedi'i ffurfio ohono;

mae "gweithrediaeth" i'w dehongli yn unol ag ystyr "*executive*" yn adran 11 o Ddeddf 2000.

(1) 2000 p.22.
(2) 1972 p.70.

2007 No. 399 (W.45)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**The Local Authorities (Executive
Arrangements) (Functions and
Responsibilities) (Wales)
Regulations 2007**

Made 14 February 2007
Coming into force 16 February 2007

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers given to it by sections 13 and 105 and 106 of the Local Government Act 2000(1).

Title, commencement and application

1.-(1) The title of these Regulations is the Local Authorities (Executive Arrangements) (Functions and Responsibilities) (Wales) Regulations 2007 and they come into force on 16 February 2007.

(2) These Regulations apply to Wales.

Interpretation

2. In these Regulations -

"the 1972 Act" ("*Deddf 1972*") means the Local Government Act 1972(2);

"the 2000 Act" ("*Deddf 2000*") means the Local Government Act 2000;

"enactment" ("*deddfiad*") includes an enactment contained in a local Act or comprised in subordinate legislation

"executive" ("*gweithrediaeth*") is to be construed in accordance with section 11 of the 2000 Act.

(1) 2000 c.22.
(2) 1972 c.70.

Swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod

3.-(1) Nid yw'r swyddogaethau a bennir yng ngholofn (1) o Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn drwy gyfeirio at y deddfiadau a bennir mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny yng ngholofn (2) o'r atodlen honno i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod.

(2) Nid yw swyddogaethau -

- (a) gosod unrhyw amod, terfyn neu gyfyngiad arall ar gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestrriad a ganiateir -
 - (i) wrth arfer swyddogaeth a bennir yng ngholofn (1) o Atodlen 1; neu
 - (ii) ac eithrio gan weithrediaeth i'r awdurdod, wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan Ddeddf leol; neu
- (b) dyfarnu ar unrhyw delerau eraill y mae unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestrriad o'r fath yn ddarostyngedig iddynt,

i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth i'r awdurdod.

(3) Nid yw swyddogaeth dyfarnu a ddylid cymryd camau gorfodi, ac ym mha fodd y dylid eu gorfodi -

- (a) yn erbyn unrhyw fethiant i gydymffurfio â chymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestrriad a roddwyd wrth arfer swyddogaeth a bennir yng ngholofn (1) o Atodlen 1,
- (b) yn erbyn unrhyw fethiant i gydymffurfio ag amod, cyfyngiad neu deler y mae unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestrriad o'r fath yn ddarostyngedig iddo, neu
- (c) yn erbyn unrhyw doriad arall o ran mater na fyddai'r swyddogaeth ynglŷn ag ef o ddyfarnu ar gais am gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestrriad yn gyfrifoldeb i weithrediaeth i'r awdurdod,

i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod.

(4) Nid yw swyddogaeth -

- (a) diwygio, addasu neu amrywio unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestrriad a ganiateir, nac unrhyw amod, terfyn, cyfyngiad neu deler o'r math a grybwyllwyd ym mharagraff (2) ac y mae'n ddarostyngedig iddynt; neu
- (b) dirymu unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestrriad o'r fath,

i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth i'r awdurdod.

Functions not to be the responsibility of an authority's executive

3.-(1) The functions specified in column (1) of Schedule 1 to these Regulations by reference to the enactments specified in relation to those functions in column (2) of that schedule are not to be the responsibility of an executive of an authority.

(2) The functions of -

- (a) imposing any condition, limitation or other restriction on an approval, consent, licence, permission or registration granted -
 - (i) in the exercise of a function specified in column (1) of Schedule 1; or
 - (ii) otherwise than by an executive of the authority, in the exercise of any function under a local Act; or
- (b) determining any other terms to which any such approval, consent, licence, permission or registration is subject,

are not to be the responsibility of an executive of the authority.

(3) The function of determining whether, and in what manner, to enforce -

- (a) any failure to comply with an approval, consent, licence, permission or registration granted in the exercise of a function specified in column (1) of Schedule 1,
- (b) any failure to comply with a condition, limitation or term to which any such approval, consent, licence, permission or registration is subject, or
- (c) any other contravention in relation to a matter with regard to which the function of determining an application for approval, consent, licence, permission or registration would not be the responsibility of an executive of the authority,

is not to be the responsibility of the executive of the authority.

(4) The function of -

- (a) amending, modifying or varying any such approval, consent, licence, permission or registration granted or any condition, limitation, restriction or term as mentioned in paragraph (2) to which it is subject; or
- (b) revoking any such approval, consent, licence, permission or registration,

is not to be the responsibility of an executive of the authority.

(5) Nid yw swyddogaeth gwneud unrhyw gynllun sydd wedi'i awdurdodi neu sy'n ofynnol gan reoliadau o dan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (cynlluniau ar gyfer lwfansau sylfaenol, lwfansau presenoldeb a lwfansau cyfrifoldeb arbennig i aelodau awdurdodau lleol), neu swyddogaeth diwygio, dirymu neu ddisodli unrhyw gynllun o'r fath, i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth i'r awdurdod.

(6) Nid yw swyddogaethau dyfarnu -

(a) swm unrhyw lwfans sy'n daladwy -

- (i) o dan is-adran (5) o adran 22 o Ddeddf 1972 (treuliau cadeirydd);
- (ii) o dan is-adran (4) o adran 24 o'r Ddeddf honno (treuliau is-gadeirydd);
- (iii) o dan is-adran (4) o adran 173 (lwfans colled ariannol) o'r Ddeddf honno⁽¹⁾;
- (iv) o dan adran 175 o'r Ddeddf honno (lwfansau ar gyfer mynychu cynadleddau a chyfarfodydd);

(b) yn ôl pa gyfraddau y mae taliadau i gael eu gwneud o dan adran 174 o'r Ddeddf honno (lwfansau teithio a lwfansau cynhaliaeth);

(c) swm unrhyw lwfans sy'n daladwy yn unol â chynllun o dan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, neu reoliadau a wnaed o dan adran 100 o Ddeddf 2000, neu yn ôl pa gyfraddau y mae taliadau o ran unrhyw lwfans o'r fath i gael eu gwneud;

(ch) a ddylid codi tâl am unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded neu gofrestriad nad yw ei dyroddi neu ei ddyroddi yn gyfrifoldeb i weithrediaeth i'r awdurdod; a

(d) pan fo tâl yn cael ei godi am unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded neu gofrestriad o'r fath, swm y tâl;

i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth i'r awdurdod.

(7) Ni fydd adran 101 o Ddeddf 1972 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan awdurdodau lleol) yn gymwys mewn perthynas â chyflawni unrhyw swyddogaeth a grybwyllir ym mharagraff (5) neu (6)(a) i (c).

(8) Yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth mewn rheoliadau o dan adran 20 (gweithredu swyddogaethau ar y cyd) o Ddeddf 2000, nid yw swyddogaeth gwneud trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan bwyllgor neu swyddog o dan adran 101(5) o Ddeddf 1972, i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth i'r awdurdod.

(5) The function of making any scheme authorised or required by regulations under section 18 of the Local Government and Housing Act 1989 (schemes for basic, attendance and special responsibility allowances for local authority members), or of amending, revoking or replacing any such scheme, is not to be the responsibility of an executive of the authority.

(6) The functions of determining -

(a) the amount of any allowance payable under -

- (i) subsection (5) of section 22 of the 1972 Act (chairman's expenses);
- (ii) subsection (4) of section 24 of that Act (vice-chairman's expenses);
- (iii) subsection (4) of section 173 (financial loss allowance) of that Act⁽¹⁾;
- (iv) section 175 of that Act (allowances for attending conferences and meetings);

(b) the rates at which payments are to be made under section 174 of that Act (travelling and subsistence allowances);

(c) the amount of any allowance payable pursuant to a scheme under section 18 of the Local Government and Housing Act 1989 or regulations made under section 100 of the 2000 Act, or the rates at which payments by way of any such allowance are to be made;

(d) whether a charge should be made for any approval, consent, licence, permit or registration the issue of which is not the responsibility of an executive of the authority; and

(e) where a charge is made for any such approval, consent, licence, permit or registration, the amount of the charge;

are not to be the responsibility of an executive of the authority.

(7) Section 101 of the 1972 Act (arrangements for discharge of functions by local authorities) does not apply with respect to the discharge of any function mentioned in paragraph (5) or (6)(a) to (c).

(8) Subject to any provision of regulations under section 20 (joint exercise of functions) of the 2000 Act the function of making arrangements for the discharge of functions by a committee or officer under section 101(5) of the 1972 Act is not to be the responsibility of an executive of the authority.

(1) Diwygiwyd adran 173(4) gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42), Atodlen 11, paragraff 26. Gwnaed arbediad perthnasol gan erthygl 3(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (Cychwyn Rhif 11 ac Arbedion) 1991 (O.S. 1991/344).

(1) Section 173(4) was amended by the Local Government and Housing Act 1989 (c.42), Schedule 11, paragraph 26. A relevant saving was made by article 3(2) of the Local Government and Housing Act 1989 (Commencement No. 11 and Savings) Order 1991 (S.I. 1991/344).

(9) Nid yw swyddogaeth gwneud penodiadau o dan adran 102 (penodi pwyllgorau) o Ddeddf 1972 i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth i'r awdurdod.

(10) Oni ddarperir fel arall gan y Rheoliadau hyn, nid yw swyddogaeth awdurdod lleol y caniateir, yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad (a basiwyd neu a wnaed cyn i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud) iddi gael ei chyflawni gan awdurdod yn unig, i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth i'r awdurdod.

Swyddogaethau y caniateir iddynt fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod

4.-(1) Caniateir i'r y swyddogaethau a bennir yn Atodlen 2 fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth i'r awdurdod, ond nid oes angen iddynt fod felly.

(2) Ni fydd dim yn y Rheoliadau hyn yn atal awdurdod lleol rhag arfer y swyddogaethau hynny sydd wedi'u dirprwyo i weithrediaeth i'r awdurdod.

Swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod yn unig

5.-(1) Mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaeth -

- (a) llunio neu baratoi cynllun neu strategaeth o ddisgrifiad a bennir yn ngholofn (1) o Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn;
- (b) llunio cynllun neu strategaeth ar gyfer rheoli benthyciadau neu wariant cyfalaf yr awdurdod; neu
- (c) llunio neu baratoi unrhyw gynllun arall y mae ei fabwysiadu neu ei gymeradwyo neu strategaeth arall y mae ei mabwysiadu neu ei chymeradwyo, yn rhinwedd rheoliad 6(1), yn fater i'r awdurdod ddyfarnu arno;

rhaid i'r camau a ddynodir gan baragraff (3) ("y camau dynodedig") beidio â bod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth i'r awdurdod.

(2) Ac eithrio fel a ddarperir ym mharagraff (1), cyfrifoldeb gweithrediaeth yw'r swyddogaethau a grybwyllwyd yn y paragraff hwnnw.

(3) Y camau dynodedig yw -

- (a) rhoi cyfarwyddiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithrediaeth ailystyried unrhyw gynllun drafft neu strategaeth ddrafft a gyflwynir gan weithrediaeth i'r awdurdod ei ystyried neu ei hystyried;
- (b) diwygio unrhyw gynllun drafft neu strategaeth ddrafft a gyflwynir gan weithrediaeth i'r awdurdod ei ystyried neu ei hystyried;
- (c) cymeradwyo, er mwyn ei gyflwyno neu ei chyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu i unrhyw un o Weinidogion y Goron, unrhyw gynllun neu strategaeth (boed ar ffurf

(9) The function of making appointments under section 102 (appointment of committees) of the 1972 Act is not to be the responsibility of an executive of the authority.

(10) Unless otherwise provided by these Regulations, a function of a local authority which, by virtue of any enactment (passed or made before the making of these Regulations) may be discharged only by an authority is not to be the responsibility of an executive of the authority.

Functions which may be the responsibility of an authority's executive

4.-(1) The functions specified in Schedule 2, may, but need not be, the responsibility of an executive of the authority.

(2) Nothing in these Regulations prevents a local authority from exercising those functions delegated to an executive of the authority

Functions which are not to be the sole responsibility of an authority's executive

5.-(1) In connection with the discharge of the function of -

- (a) formulating or preparing a plan, scheme or strategy of a description specified in column (1) of Schedule 3 to these Regulations;
- (b) formulating a plan, scheme or strategy for the control of the authority's borrowing or capital expenditure; or
- (c) formulating or preparing any other plan, scheme or strategy whose adoption or approval is, by virtue of regulation 6(1), a matter for determination by the authority;

the actions designated by paragraph (3) ("the designated actions") must not be the responsibility of an executive of the authority.

(2) Subject as provided in paragraph (1) the functions mentioned in that paragraph must be the responsibility of an executive.

(3) The designated actions are -

- (a) the giving of instructions requiring an executive to reconsider any draft plan, scheme or strategy submitted by an executive for the authority's consideration;
- (b) the amendment of any draft plan, scheme or strategy submitted by an executive for the authority's consideration;
- (c) the approval, for the purpose of its submission to the National Assembly for Wales or any Minister of the Crown for approval of any plan, scheme or strategy (whether or not in the

drafft neu beidio) y mae'n ofynnol cyflwyno unrhyw ran ohono neu ohoni felly;

(ch) mabwysiadu'r cynllun neu'r strategaeth (gydag addasiadau neu hebddynt).

(4) O ran swyddogaeth diwygio, addasu, amrywio neu ddiddymu unrhyw gynllun neu strategaeth o ddisgrifiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1), (p'un a yw'n gynllun neu strategaeth a gymeradwyd neu'n un a fabwysiadwyd, cyn neu ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym) -

(a) mae'n gyfrifoldeb i weithrediaeth i'r awdurdod i'r graddau y mae gwneud y diwygio, yr addasu, yr amrywio neu'r dirymu -

(i) yn ofynnol er mwyn rhoi eu heffaith i ofynion Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu un o Weinidogion y Goron mewn perthynas â chynllun neu strategaeth a gyflwynir i gael ei gymeradwyo neu ei chymeradwyo, neu ag unrhyw ran a gyflwynir felly; neu

(ii) wedi'i awdurdodi drwy ddyfarniad a wnaed gan yr awdurdod wrth wneud y trefniadau neu gymeradwyo neu fabwysiadu'r cynllun neu'r strategaeth, yn ôl y digwydd; ond

(b) nid yw'n gyfrifoldeb i weithrediaeth i unrhyw raddau eraill.

(5) Ac eithrio i'r graddau a grybwyllir ym mharagraff (6), mae swyddogaeth gwneud cais -

(a) o dan is-adran (5) o adran 135 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 (rhaglenni ar gyfer gwaredu) (1); neu

(b) o dan adran 32 (pŵer i waredu tir a ddelir at ddibenion Rhan II neu adran 43 (cydsyniad sy'n ofynnol ar gyfer gwarediadau penodol nad ydynt yn dod o dan adran 32) o Ddeddf Tai 1985(2),

i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth i'r awdurdod.

(6) Awdurdodi gwneud y cais yw'r graddau a grybwyllir yn y paragraff hwn.

(7) Nid yw swyddogaeth gwneud cais o'r math y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (5), i'r graddau a grybwyllwyd ym mharagraff (6), yn gyfrifoldeb i weithrediaeth i'r awdurdod.

(8) Ni fydd adran 101 o Ddeddf 1972 yn gymwys ynglŷn â chyflawni -

(a) swyddogaeth a bennir ym mharagraff (1) i'r

form of a draft) of which any part is required to be so submitted;

(d) the adoption (with or without modification) of the plan, scheme or strategy.

(4) The function of amending, modifying, varying or revoking any plan, scheme or strategy of a description referred to in paragraph (1), (whether approved or adopted, before or after the coming into force of these Regulations) -

(a) is the responsibility of an executive of the authority to the extent that the making of the amendment, modification, variation or revocation -

(i) is required for giving effect to requirements of the National Assembly for Wales or a Minister of the Crown in relation to a plan, scheme or strategy submitted for approval or to any part so submitted; or

(ii) is authorised by a determination made by the authority when making the arrangements or approving or adopting the plan, scheme or strategy, as the case may be; but

(b) is not the responsibility of an executive to any other extent.

(5) Except to the extent mentioned in paragraph (6), the function of making an application -

(a) under subsection (5) of section 135 of the Leasehold Reform, Housing and Urban Development Act 1993 (programmes for disposals)(1); or

(b) under section 32 (power to dispose of land held for the purposes of Part II or section 43 (consent required for certain disposals not within section 32) of the Housing Act 1985(2),

is the responsibility of an executive of the authority.

(6) The extent mentioned in this paragraph is the authorisation of the making of the application.

(7) The function of making such an application as is referred to in paragraph (5), to the extent mentioned in paragraph (6), is not the responsibility of an executive of the authority.

(8) Section 101 of the 1972 Act does not apply with respect to the discharge -

(a) of a function specified in paragraph (1) to the

(1) 1993 p.28, sef Deddf y mae diwygiadau iddi nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) 1985 p.68. Yr oedd diwygiadau perthnasol yn is-adran (3) o adran 32 ac is-adran (1)(a) o adran 43 wedi'u gwneud gan baragraff 3(a), (d) ac (e) o'r Atodlen i O.S. 1997/74.

(1) 1993 c.28, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(2) 1985 c.68. Relevant amendments, in subsection (3) of section 32 and subsection (1)(a) of section 43, were made by paragraph 3(a), (d) and (e) of the Schedule to S.I. 1997/74.

graddau nad yw'n gyfrifoldeb i weithrediaeth i'r awdurdod yn rhinwedd y paragraff hwnnw;

- (b) y swyddogaethau a bennir ym mharagraffau (4) a (5) i'r graddau nad ydynt yn gyfrifoldeb i weithrediaeth i'r awdurdod.

(9) Mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaeth-

- (a) yn ddarostyngedig i'r darpariaethau ynglŷn â chyfrifo sylfaen treth gyngor ym mharagraff 22 o Atodlen 2, cyfrifo yn unol ag unrhyw un o adrannau 32 i 37, 43 i 51, 52I, 52J, 52T a 52U o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(1), p'un ai drwy'r adran wreiddiol neu drwy gyfrwng adran amnewid; neu
- (b) dyroddi praesept o dan Bennod IV o Ran 1 o'r Ddeddf honno,

mae'r camau a ddynodir gan baragraff (11) ("y camau dynodedig") yn gyfrifoldeb i weithrediaeth i'r awdurdod.

(10) Yn ddarostyngedig i'r hyn a ddarperir ym mharagraff (9), nid cyfrifoldeb gweithrediaeth yw'r swyddogaeth a grybwyllwyd yn y paragraff hwnnw.

(11) Y camau dynodedig yw -

- (a) paratoi'r canlynol, er mwyn eu cyflwyno i'r awdurdod eu hystyried -
 - (i) amcangyfrifon o'r symiau sydd i'w hagregu wrth gyfrifo neu amcangyfrifon o symiau eraill sydd i'w defnyddio at ddibenion y cyfrifo;
 - (ii) y symiau y mae'n ofynnol eu datgan yn y praesept;
- (b) ailystyried yr amcangyfrifon a'r symiau hynny yn unol â gofynion yr awdurdod;
- (c) cyflwyno amcangyfrifon a symiau diwygiedig i'r awdurdod eu hystyried.

Cyflawni swyddogaethau penodedig gan awdurdodau

6.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i swyddogaeth o unrhyw un o'r disgrifiadau a bennir yng ngholofn (1) o Atodlen 4 (a allai, oni bai am y paragraff hwn, fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth i'r awdurdod) beidio â bod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth o dan yr amgylchiadau a bennir yng ngholofn (2) mewn perthynas â'r swyddogaeth honno.

(2) Ni fydd paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â chyflawni swyddogaeth o'r disgrifiad a bennir ym mharagraff 3 o golofn (1) o Atodlen 4 -

extent that, by virtue of that paragraph, it is not the responsibility of an executive of the authority;

- (b) of the functions specified in paragraphs (4) and (5) to the extent that they are not the responsibility of an executive of the authority.

(9) In connection with the discharge of the function of-

- (a) subject to the provisions in respect of calculations of council tax base in paragraph 22 of Schedule 2 making a calculation in accordance with any of sections 32 to 37, 43 to 51, 52I, 52J, 52T and 52U of the Local Government Finance Act 1992(1), whether originally or by way of substitute; or
- (b) issuing a precept under Chapter IV of Part 1 of that Act,

the actions designated by paragraph (11) ("the designated actions") are the responsibility of an executive of the authority.

(10) Subject as provided in paragraph (9), the function mentioned in that paragraph is not the responsibility of an executive.

(11) The designated actions are -

- (a) the preparation, for submission to the authority for their consideration, of -
 - (i) estimates of the amounts to be aggregated in making the calculation or of other amounts to be used for the purposes of the calculation;
 - (ii) the amounts required to be stated in the precept;
- (b) the reconsideration of those estimates and amounts in accordance with the authority's requirements;
- (c) the submission for the authority's consideration of revised estimates and amounts.

Discharge of specified functions by authorities

6.-(1) Subject to paragraph (2), a function of any of the descriptions specified in column (1) of Schedule 4 (which, but for this paragraph, might be the responsibility of an executive of the authority), is not the responsibility of an executive in the circumstances specified in column (2) in relation to that function.

(2) Paragraph (1) does not apply in relation to the discharge of a function of the description specified in paragraph 3 of column (1) of Schedule 4 where -

(1) 1992 p.14; mewnosodwyd adrannau 52I, 52J, 52T a 52U gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 (p.27), Atodlen 1, paragraff 1.

(1) 1992 c.14; sections 52I, 52J, 52T and 52U were inserted by the Local Government Act 1999 (c.27) Schedule 1, paragraph 1.

- (a) pan fo'n rhesymol barnu bod yr amgylchiadau, sy'n peri iddi fod yn angenrheidiol gwneud y dyfarniad, yn amgylchiadau brys; a
- (b) pan fo'r unigolyn neu'r corff y mae'r dyfarniad i'w wneud ganddo wedi cael oddi wrth gadeirydd pwyllgor craffu perthnasol neu, os nad oes person o'r fath neu os yw cadeirydd pob pwyllgor craffu perthnasol yn methu gweithredu neu'n anfodlon gweithredu, oddi wrth gadeirydd yr awdurdod neu, yn absenoldeb y person hwnnw, oddi wrth yr is-gadeirydd, ddatganiad mewn ysgrifenedig bod angen i'r penderfyniad gael ei wneud ar frys.

(3) Ym mharagraff (2) ystyr "pwyllgor craffu perthnasol" yw pwyllgor craffu i'r awdurdod y mae ei gylch gwaith yn cynnwys y pŵer i adolygu neu i graffu ar benderfyniadau neu gamau eraill a gymerwyd wrth gyflawni'r swyddogaeth y mae'r dyfarniad yn ymwneud â hi.

(4) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i ddyfarniad gael ei wneud, rhaid i'r unigolyn neu'r corff y gwneir y dyfarniad ganddo yn unol â pharagraff (2), gyflwyno i'r awdurdod adroddiad y mae'n rhaid iddo gynnwys manylion -

- (a) y dyfarniad;
- (b) yr argyfwng neu'r amgylchiadau eraill y cafodd ei wneud odano neu odanynt; ac
- (c) y rhesymau dros y dyfarniad.

(5) Nid yw adran 101 o Ddeddf 1972 yn gymwys mewn perthynas â chyflawni swyddogaeth y cyfeiriwyd ati ym mharagraff (1) nad yw, yn rhinwedd y paragraff hwnnw, yn gyfrifoldeb i weithrediaeth i'r awdurdod.

Dirymu

7. Mae'r canlynol wedi'u dirymu-

- (a) Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001(1);
- (b) Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2002(2);
- (c) Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2003(3); ac
- (ch) Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2004 (4).

- (a) the circumstances which render necessary the making of the determination may reasonably be regarded as urgent; and
- (b) the individual or body by whom the determination is to be made has obtained from the chairperson of a relevant scrutiny committee or, if there is no such person or the chairperson of every relevant scrutiny committee is unable or unwilling to act, from the chairperson of the authority or, in that person's absence, from the vice-chairperson, a statement in writing that the determination needs to be made as a matter of urgency.

(3) In paragraph (2) "relevant scrutiny committee" means a scrutiny committee of the authority whose terms of reference include the power to review or scrutinise decisions or other action taken in the discharge of the function to which the determination relates.

(4) The individual or body by whom a determination is made pursuant to paragraph (2) must, as soon as reasonably practicable after the making of the determination, submit to the authority a report which shall include particulars of -

- (a) the determination;
- (b) the emergency or other circumstances in which it was made; and
- (c) the reasons for the determination.

(5) Section 101 of the 1972 Act does not apply with respect to the discharge of a function referred to in paragraph (1) which, by virtue of that paragraph, is not the responsibility of an executive of the authority.

Revocation

7. The following are revoked-

- (a) the Local Authorities Executive Arrangements (Functions and Responsibilities) (Wales) Regulations 2001(1);
- (b) the Local Authorities Executive Arrangements (Functions and Responsibilities) (Amendment) (Wales) Regulations 2002(2);
- (c) the Local Authorities Executive Arrangements (Functions and Responsibilities) (Amendment) (Wales) Regulations 2003(3); and
- (d) the Local Authorities Executive Arrangements (Functions and Responsibilities) (Amendment) (Wales) Regulations 2004(4).

(1) O.S. 2001/2291 (Cy.179).

(2) O.S. 2002/783 (Cy.84).

(3) O.S. 2003/153 (Cy.23).

(4) O.S. 2004/3093 (Cy.267)

(1) S.I. 2001 / 2291 (W.179).

(2) S.I. 2002 / 783 (W.84).

(3) S.I. 2003 / 153 (W.23).

(4) S.I. 2004 / 3093 (W.267).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1).

14 Chwefror 2007

14 February 2007

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

SWYDDOGAETHAU NAD YDYNT I FOD
YN GYFRIFOLDEB I WEITHREDIAETH
AWDURDOD

FUNCTIONS NOT TO BE THE
RESPONSIBILITY OF AN AUTHORITY'S
EXECUTIVE

(1) Y Swyddogaeth	(2) Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol
A. Swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref a rheoli datblygu	
1. Y pŵer i ddyfarnu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio.	Adrannau 70(1)(a) a (b) a 72 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p.8).
2. Y pŵer i ddyfarnu ar geisiadau am ddatblygu tir heb gydymffurfio ag amodau a osodwyd o'r blaen.	Adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
3. Y pŵer i roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sydd eisoes wedi'i gyflawni.	Adran 73A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1).
4. Y pŵer i wrthod dyfarnu ar gais am ganiatâd cynllunio.	Adran 70A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(2).
5. Dyletswyddau sy'n ymwneud â gwneud dyfarniadau ar geisiadau cynllunio.	Adrannau 69, 76 a 92 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac Erthyglau 8, 10 i 13, 15 i 22 a 25 a 26 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995 (O.S. 1995/419) a chyfarwyddiadau a wneir odanynt.

(1) Function	(2) Provision of Act or Statutory Instrument
A. Functions relating to town and country planning and development control	
1. Power to determine applications for planning permission.	Sections 70(1)(a) and (b) and 72 of the Town and Country Planning Act 1990 (c.8).
2. Power to determine applications to develop land without compliance with conditions previously attached.	Section 73 of the Town and Country Planning Act 1990.
3. Power to grant planning permission for development already carried out.	Section 73A of the Town and Country Planning Act 1990(1).
4. Power to decline to determine application for planning permission.	Section 70A of the Town and Country Planning Act 1990(2).
5. Duties relating to the making of determinations of planning applications.	Sections 69, 76 and 92 of the Town and Country Planning Act 1990 and Articles 8, 10 to 13, 15 to 22 and 25 and 26 of the Town and Country Planning (General Development Procedure) Order 1995 (S.I. 1995/419) and directions made there under.

(1) Mewnosodwyd adran 73A gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991 (p.34), Atodlen 7, paragraff 8.

(2) Mewnosodwyd adran 70A gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991, adran 17.

(1) Section 73A was inserted by the Planning and Compensation Act 1991 (c.34), Schedule 7, paragraph 8.

(2) Section 70A was inserted by the Planning and Compensation Act 1991, section 17.

6. Y pŵer i ddyfarnu ar gais am ganiatâd cynllunio a wneir gan awdurdod lleol, ar ei ben ei hun neu ar y cyd â pherson arall.	Adran 316 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992 (O.S. 1992/1492)(1).
7. Y pŵer i wneud dyfarniadau, i roi cymeradwyaethau ac i gytuno ar faterion penodol eraill sy'n ymwneud ag arfer hawliau datblygu a ganiateir.	Rhannau 6, 7, 11, 17, 19, 20, 21 i 24, 30 a 31 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (O.S. 1995/418).
